



HANES

Cyn y Rhyfel Mawr, roedd y Goedwig Fawr, a oedd yn goetir helaeth bryd hynny, yn un o hoff gyrchfannau ei pherchennog; Iarll Plymouth. Oherwydd prinder coed yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd rhaid torri'r holl goed mawr a'u defnyddio fel pren. Wrth i ffensys gael eu dymchwel er mwyn mynd â'r coed oddi yno dinistriwyd y coed ifanc oedd yn weddill, a dadwreiddiwyd llawer o flodau gwyllt a rhedyn gan y cyhoedd a oedd bellach yn gallu mynd i mewn yno.

Erbyn y 1920au er gwaethaf y difrod cynharach, goroesodd rhai coed gwych ac roedd Coed Mawr yn dal i fod yn gartref i nifer o rywogaethau prin fel y Fritheg a'r Aderyn Gyddfgam (math o aderyn o deulu Cnocell y Coed). A hithau wedi'i lleoli'n gyfleus ger y tai newydd a gynlluniwyd ar gyfer hen safle Fferm Tŷ Coch, rhoddodd Iarll Plymouth ran fawr o'r goedwig i Gorfforaeth Caerdydd ar y pryd. Gan gadw tua 10 erw o'r coed ar y pen gorllewinol, gofynnodd Ei Arglwyddiaeth bod y gweddill yn cael ei roi yn barhaol ar gyfer hamdden a theithiau cerdded i'r cyhoedd.


📍 Cwrlid o glychau'r gog



Cenau Derwen



📍 Llwybr gyda charped o Graf y Geifr



Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



🕒 Dail yr Hydref



HANES

Yn ystod gaeaf 1922/23 gosodwyd ffens haearn ar hyd y ffin orllewinol a gwnaed gwelliannau yn y coed. Roedd hyn yn cynnwys glanhau planhigion Llarwydd a Phîn, lefelu'r llwybrau troed a gosod meinciau gwledig. Gosodwyd hysbysiadau yn rhybuddio pobl i beidio gwneud difrod i'r coed, cynnau tanau, dadwreiddio planhigion gwyllt a chasglu blodau. Cafodd y goedwig, a gafodd ei hailenwi yn Goedwig Fawr Plymouth ar ôl yr larll (a fu farw ym mis Mawrth 1923), ei hagar i'r cyhoedd gan ei fab ym mis Mai 1923.



🕒 Eira ac Iorwg

Cyflogwyd ceidwaid i wylu'r coed ac adeiladwyd lloches yn gartref iddynt ar safle ger y chwarel a ddewiswyd gan y diweddar larll yn 1928. Roedd yn union replica o dŷ haf Hewell, yn Hewell Grange, Swydd Gaerwrangon, a adeiladwyd gan larll Plymouth fel cartref y teulu yn 1894-1904. Mae'r lloches yn y goedwig wedi'i dymchwel ers hynny a'r unig beth sydd ar ôl yw slab concriid ger mynedfa'r chwarel.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



DAEAREG

Cafodd y chwarel ei chloddio ddiwedd 1800au i ddarparu deunydd adeiladu ar gyfer Rheilffordd y Great Western (prif linell rheilffordd Llundain i Abertawe bellach), sy'n rhedeg i'r gogledd o'r goedwig. Mae'n gorwedd ychydig uwchben llwybr uchaf y goedwig, a gellir ei gweld yn rhan ddeheuol y goedwig y gellir mynd ati o Llewellyn Avenue, Trelái.

Mae'r creigiau yn y chwarel hon yn dod o'r oes Driasig, tua 203 miliwn mlwydd oed. Mae cliwiau yn y chwarel sy'n eich galluogi i weld sut oedd yr ardal hon yr holl flynyddoedd yn ôl (gweler y diagram drosodd).

Er enghraifft, mae gan y graig a adnabyddir yn lleol fel Carreg Radur liw coch nodedig sy'n ganlyniad uniongyrchol i'w chynnwys haearn uchel. Mae haearn yn goch ei liw mewn amgylcheddau sych sy'n llawn ocsigen. Mae hyn yn helpu daearegwyr ddod i'r casgliad bod y creigiau wedi'u ffurfio mewn amgylchedd sych tebyg i anialwch.

Mae'r creigiau yn cynnwys cerrig bach a chlogfaen o'r enw "clymfeini". Mae siâp crwn y cerrig bach yn awgrymu eu bod wedi'u gwisgo wrth rollo o gwmpas gwely'r afon. Mae natur fawr a chymysg y cerrig bach yn awgrymu bod yr afon hon yn gyflym a phwerus.

Gan edrych ar y chwarel o bellter gallwch weld bod y cerrig wedi'u trefnu mewn haenau, neu "welyau", a bod y gwelyau hyn yn aml mewn siâp lletem. Mae pob lletem yn cynrychioli sianel afon wahanol. Mae hyn yn awgrymu bod yr afon yn cael cyfnodau o lifogydd mawr, gyda sianeli newydd yn cael eu ffurfio wrth i lif y dŵr dyrru lawr y dyffryn.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap

Chwarel Coedwig Fawr Plymouth




Cerrig yw'r rhan fwyaf o'r graig yn y Chwarel



Yn y cyfnod Triasig, roedd Ardal Sain Ffagan yn amgylchedd sych, diffaith



Adluniad o'r amgylchedd pan grëwyd creigiau Chwarel Coedwig Fawr Plymouth



ALLWEDD

- Clymfaen Triassic
- Tywodfaen Hen Coch Uwch
- Calchfaen Carbonifferaidd
- Tywodfaen Hen Coch Is
- Lleoliad Bras trefi / pentrefi modern



DAEAREG

Mae'r holl wybodaeth hon yn golygu ein bod gallu creu model sy'n dangos sut fyddai'r ardal yn edrych yn yr oes Driasig (gweler y diagram drosedd).

Wrth fynedfa'r chwarel mae gweddillion yr hyn sy'n ymddangos fel dwy olyn galch. Roedd odyddau calch yn gyffredin yn y 19eg ganrif, ac roeddent yn cael eu canfod lle bynnag y gellid cloddio calchfaen. Roedd calchfaen yn cael eu pobi yn yr odyddau hyn, gan greu calch a oedd yna'n gallu cael ei ledaenu ar dir fferm a oedd yn dioddef o bridd asid, gan ei wneud yn well ar gyfer tyfu cnydau.

Fodd bynnag, mae'n annhebygol fod odyddau calch i'w cael yma gan fod y chwarel yn dywodfaen. Mae'n bosibl bod gwelyau bach o galchfaen, o'r enw 'calcretes', wedi'u canfod yn y chwarel a bod digon ohonynt i fwydo'r odyddau. Ar y llaw arall, gallai'r calchfaen fod wedi dod yno o Chwarel Coed Bychan gerllaw, lle'r oedd calchfaen Jwrasig yn cael ei gloddio.

Wrth gloddio'r chwarel yn y 1860au darganfuwyd casgliad o'r Oes Efydd. Mae'n cynnwys dau flaen gwaywffon, pum bwyell, a rhan o lafn cleddyf oedd yn berchen i bobl oedd yn byw yng Nghymru rhwng 2,500CC a'r ganrif gyntaf OC. Yn ystod y gwaith cloddio amgaewyd y chwarel gyda ffensys sydd bellach wedi'u tynnu i lawr. Heddiw mae'r chwarel wedi'i chlirio o dunelli o sbwriel ac mae arwyneb y chwarel yn amlwg iawn.

Blaenorol

Nesaf

Prif Fap



BIOAMRYWIAETH

Coetir hynafol lled naturiol yw Coedwig Fawr Plymouth. Er ei bod wedi cael ei rheoli mae blodau'r tir yn nodweddiadol o goetir naturiol. Oherwydd hyn mae'r goedwig wedi'i dynodi fel Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, sy'n ei diogelu drwy'r system gynllunio. Heddiw, mae'r goedwig yn cael ei rheoli gan Wasanaethau Parciau'r Cyngor mewn cysylltiad â'r gymuned leol. Mae'n gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau diddorol. Gallech weld rhai o'r rhain wrth gerdded drwy'r coetir.

Prif Fap



Cap Inc Brith

Rob Nottage



Lindysyn Ermin Gwyn



Ji-binc



Mantell Paun



Y Wiwer Lwyd



Arum



Coed



Broga Cyff edin



Rhedyn



📍 Bronfraith



📍 Y Frangoch



📍 Ji-binc



📍 Cnocell Werdd



📍 Delor y Cnau



📍 Aderyn Du



📍 Titw Tomos Las



ADAR

Mae'r coetir yn gartref i nifer o rywogaethau o adar. Yn y gaeaf gallech glywed y Deryn Du yn chwilio drwy'r dail am bryfaid i'w bwyta. Gallech hefyd glywed y Fronfraith yn bwrw malwen ar garreg i dorri ei chragen. Os edrychwch ar frigau'r coed gallech weld heidiau cymysg gan gynnwys y Titw Mawr, Titw Cynffon Hir, Titw Tomos Las a Ji-binc yn symud o amgylch y lle yn bwyta hadau a phryfaid.

Yn y gwanwyn mae llawer o adar yn canu yn y coetir. Mae Telor Penddu yn ymwelwyr yn yr haf gyda chân trydar swynol. Mae'r Siff-Saff hefyd yn cyrraedd yn y gwanwyn ac mae ganddynt alwad "siff-saff" nodedig.

Yn yr haf bydd yr adar yn brysur yn magu eu cywion. Gallech weld y Robin Goch yn gwibio o amgylch y lle gyda phig yn llawn mwydod. Mae cnocell werdd y coed yn gadael y coetir i hela am forgrug yn y caeau; mae ganddynt alwad uchel.

Yn yr hydref mae'r adar yn paratoi at y gaeaf. Mae'r titw penddu yn hoffi cuddio cnau, fel gwiwerod. Mae ganddynt gof ardderchog. Mae Sgrech y Coed hefyd yn cuddio cnau a mes. Mae'r adar lliwgar hyn wedi'u cuddliwio yn y coed ond mae eu cân fel sgrech uchel. Mae'r enw yn addas gan eu bod yn sgrechian yn y coed – Sgrech y Coed.




AMFFIBIAID

Mae'n hawdd adnabod brogaod cyffredin. Mae ganddynt groen esmwyth gyda llawer o amrywiadau lliw gan gynnwys llwyd, gwyrdd olif, melyn a brown. Maent yn dodwy wyau mewn clympiau o'r enw grifftoedd brogaod. Pan fydd y penbyliaid yn deor maent yn bwyta eu hwyau. Dros y 12 wythnos nesaf mae'r penbyliaid yn troi yn frogaod. Er bod y rhai benywaidd yn dodwy 1000-4000 o wyau dim ond 5 o bob 2000 fydd yn goroesi i ddod yn frogaod sy'n oedolion. Gall oedolion fyw hyd at 6 mlynedd a gallant anadlu drwy eu crwyn yn ogystal â'u hysgyfaint. Mae brogaod yn bwyta anifeiliaid di-asgwrn-cefn fel malwod, mwydod a phryfaid y gallant eu dal gyda'u tafodau gludiog hir.

Madfall falmaidd y môr yw'r fadfall fôr fwyaf cyffredin yng Nghaerdydd. Weithiau yn cael eu camgymryd am y fadfall gyffredin, maent yn treulio llawer o amser ar y tir a dim ond yn ymweld â phyllau yn y tymor bridio. Maent yn tyfu i hyd at 9cm ac mae gan y rhai gwrywaidd draed ôl tywyll, gweog a dyna o ble daw'r enw 'palmaidd' (cael siâp tebyg i law gyda bysedd wedi ymestyn). Yn wahanol i frogaod, mae madfall y môr yn dodwy wyau unigol y maent yn eu gorchuddio â dail. Mae penbyliaid ac oedolion madfall y môr yn bwyta pryfaid a mwydod ar dir a malwod dŵr a 'phenbyliaid broga' yn y dŵr.

Broga Cyffredin



Grifft Broga



Madfall Ddŵr Gledrog



📌 Hadau Tafod yr Hydd



RHEDYN

Planhigion hynafol yw rhedyn sy'n ymddangos mewn cofnod ffosilau tua 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Fe'i geir drwy'r coetir cyfan; yn y prysgwydd, yn uchel i fyny yn y coed ac ar wyneb y garreg yn y chwarel.

Nid ydynt yn creu hadau ac felly nid oes ganddynt flodau. Yn hytrach, maent yn atgynhyrchu drwy ddefnyddio sborau bach. Celloedd tebyg i lwch ydynt sydd mor fach fel y byddai 25 ohonynt mewn rhes ond yn cyrraedd 1 milimetr o hyd. Caiff y sborau eu storio mewn capsïwlau o'r enw Sporangia, y gallech eu gweld mewn rhesi ar ochr isaf y rhedyn.

Mae rhai rhywogaethau, fel Gwibredyn, yn aros yn wyrdd drwy gydol y flwyddyn ac yn lliwgar iawn yn y gaeaf. Mae tafod yr hydd hefyd yn fytholwyrdd, ac mae'n hawdd ei adnabod gyda dail nad ydynt yn rhannu. Gallwch weld y rhedyn hyn yn hongian oddi ar wyneb creigiog yn yr hen chwarel. Maent yn gwneud i'r safle deimlo fel fforest law!

Prif Fap

📌 Rhedynen Fras



📌 Tafod yr Hydd





IEIR BACH YR HAF

Yn yr haf a'r hydref gallwch weld ieir bach yr haf mewn llennyrch braf ar ochrau'r coetir. Mae brith y coed yn ieir bach yr haf brown maint canolig gyda phatrwm brith hufen. Mae'r gwryw yn diriogaethol ac yn clwydo mewn pyllau o heulwen ac yn hedfan i fyny'n gyflym pan ddaw tresmaswyr. Mae'r ieir bach yr haf yn bwydo ar felwlith ar frigau'r coed felly yn anaml y byddwch yn eu gweld ar flodau ar y llawr.

Mantell paun yw un o'r ieir bach yr haf harddaf. Mae ganddynt adenydd coch gyda marciau crwn nodedig. Mae'n defnyddio danadl poethion i ddodwy wyau ac mae eu lindys yn gorchuddio'r planhigyn mewn pentyrrau du.

Gellir canfod lâr Fach Dramor a'r Fantell Goch yn y coed ac mae'r ddau ymfudo bob blwyddyn. Yn y gwanwyn maent yn symud i'r gogledd o De Affrica ac Ewrop gyfandirol. Gellir gweld lâr Fach Amryliw ar ochrau'r coetiroedd. Mae'r rhain yn gaeafgysgu yn y DU a gellir eu gweld weithiau mewn tai a chytiau yn y gaeaf.

Prif Fap

Brith y Coed



Y Fantell Goch



Lindysyn Paun



Mantell Paun





Cap Brau Gwridog

Rob Nottage



Trametes Versicolor

Rob Nottage



Ysgwydd y Fedwen



Cap Inc Brith

Rob Nottage



FFWNG

Mae gan lawer o'r ffwng sydd o amgylch y coed enwau cyff edin disgrifiadol sy'n cyfeirio at eu lliw, siâp neu wead fel Cap Brau Gwridog, Twyllwr piws, Torth felen, Corn gwyn, Croen oren a Choed Wydn Seimlyd.

Ymysg enwau eraill sy'n fwy sinistr oherwydd bod rhai yn wenwynig mae Cap marwol ff_ug, Crwst gwenwynig a Llaw farw.

Gellir hefyd eu canfod mewn ffwng bracedi yn y coed. Mae'r rhain yn tyfu o goed marw ac sydd yn marw, sy'n edrych fel silffoedd neu fracedi. Mae Ysgwydd y Fedwen yn ff_wng braced cyffredin y gallwch eu gweld ar goed Bedwen unrhyw adeg o'r fl_w yddyn.

Caws llyffant du a gwyn yw'r Cap Inc Brith. Pan fydd yn aeddfedu bydd yn toddi yn bwl o inc.

RHYBUDD: PEIDIWCH Â BWYTA UNRHYW FFWNG A GANFYDDIR YN Y GOEDWIG. Gall hyd yn oed arbenigwyr gymysgu rhywogaethau sy'n edrych yn debyg ac mae rhai yn angheuol!

Prif Fap



MAMALIAID

Er mai prin iawn y gwelir mamaliaid nid ydynt byth yn bell iawn mewn coetir. Er nad yw Wiwerod llwyd yn frodorol i'r wlad hon, mae bob amser yn bleser eu gweld yn rhedeg drwy'r coed. Maent yn enwog am guddio cnau i'w bwyta yn y gaeaf. Nhw yw un o'r unig famaliaid sy'n gallu dringo i lawr coeden wysg eu pennau, drwy droi eu bwyd fel bod eu pawennau ôl yn pwyntio am yn ôl ac yn gallu dal gafael ar risgl y goeden. Gall wiwerod fod yn eithaf swnllyd ac mae'n bosibl y gallech glywed sŵn cyfarth uchel rhyfedd o frigau'r coed. Mae llygod y maes hefyd yn casglu cnau ac weithiau yn storio llawer ohonynt mewn bocsys adar.

Ymysg y mamaliaid eraill yn y coetir mae'r Llygoden gyffredin. Mae'n bosibl y byddwch yn clywed sŵn gwichian uchel iawn o'r prysgwydd. Dyma'r Llygoden yn defnyddio ecoleoliad fel ystlumod i ymchwilio i'r hyn sydd o'u hamgylch. Gellir clywed draenogod gyda'r nos yn snwffian drwy'r isdyfiant yn chwilio am wlithod a mwydod.

Mae nifer o rywogaethau o ystlumod yn defnyddio'r coetiroedd. Mae ystlumod hirglust yn hedfan yn araf drwy'r coed gan godi pryfaid oddi ar dail a rhisglau. Weithiau maen nhw hyd yn oed yn glanio ar y llawr i ddal pryfaid. Maent wedi'u henwi ar ôl eu clustiau hir sydd bron yr un mor hir â'u cyrff. Wrth orffwyso maent yn eu cyrlio yn ôl fel cynr hyrddod neu yn eu rhoi o dan eu hadenydd.

Ar hyd yr afon mae Ystlumod y dŵr yn hedfan yn isel i ddal pryfaid o'r dŵr. Ar declyn canfod ystlumod mae eu seiniau ecoleoliad yn swnio fel cyfres o gliciau tebyg i wn peiriant. Maent yn byw mewn bylchau bach mewn pontydd ger y dŵr. Anaml iawn y gwelir yr ystlumod hyn mewn tai.

RHYBUDD: DIOGELIR POB YSTLUM GAN Y GYFRAITH RHAG EU HAFLONYDDU, EU LLADD NEU EU HANAFU. Os dewch o hyd i ystlum sydd angen cymorth cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. Rhif ffôn.

Prif Fap



Y Wiwer Lwyd



Llygoden y Maes



Draenog



📍 Llwyd y gwyddf



📍 Coegyn Cudynnog



📍 Ptycholoma Lecheana



📍 Lindysyn Ermin Gwyn



📍 Ermine Gwyn



📍 Gwyfyn Tuswog Coll



📍 Brychan Rhubanaidd



GWYFYNOD

Llwyd y gwyddf yw un o'r gwyfynod cyntaf i ymddangos yn y tymor. Gellir eu gweld o f3 Mawrth i fis Mai. Cânt eu denu gan olau ac weithiau gellir eu gweld yn y dydd ar ffens neu wal ger adeiladau. Mae Ermin gwyn hefyd yn cael ei ddenu gan olau. Mae'r lindys yn flegog ac yn llwyd-frown gyda streipen goch nodedig ar y cefn.

Mae'r gwyfyn Brychan rhubanaidd yn cael ei enw o'r strbyn du sy'n cychwyn ar ochr flaen yr adain. Er bod y Crynwr amrywiol yn aml yn cael ei ddiystyru, mae patrwm a lliw'r gwyfyn hwn yn ddiddorol iawn. Drwy gydol y wlad mae'r lliwiau'n amrywio o lwyd golau ac ocr coch golau i ddu-frown.

Mae gan y Crwbach cribog ffyrdd o ddelio ag ysglyfaethwyr posibl – mae'r lindys yn codi ei ben dros y cefn pan fydd wedi dychryn ac mae'r oedolyn yn ffugio ei fod wedi marw os caiff ei ddal.

Prif Fap



PLANHIGION

Ystyrir y coetir yn goetir hynafol lled naturiol. Mae hyn yn golygu er bod y coed wedi'u hailblannu, mae'r planhigion blodeuol gwreiddiol yr un fath o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys: Dail Cwlwm yr Asgwrn, Cloc y Dref, Briallu, Marddanhadlen Felen a Gwlydd Melyn Mair. Gallech hefyd weld 'carpedi' o flodau fel Craf y Geifr (Garlleg Gwyllt) a Chlychau'r Gog frodorol yn y gwanwyn. Yn anffodus mae Clychau'r Gog o dan fygythiad gan Glychau'r Gog o Sbaen a gyflwynwyd i erddi yn y 17eg Ganrif sy'n traws-bridio â'r rhywogaethau brodorol.

Mae gan lawer o blanhigion nodweddion meddygol fel Eurinllys Blewog (St John's-wort) sydd wedi'i ddefnyddio am ganrifoedd fel moddion gwrth iselder. Mae Bysedd y Cŵn sy'n cynnwys digitalis cemegol, yn cael ei ddefnyddio i drin nifer o glefydau'r galon. Fodd bynnag, mae hwn yn blanhigyn gwenwynig iawn yn yr un modd â Chwswll y Mynach sydd i'w weld ar lannau Afon Elái. Mae gan hwn flodau porffor llabedog sydd ar siâp chwswll a gall hyd yn oed cyffwrdd â'r croen achosi llid difrifol.

RHYBUDD: MAE'N ANGHYFREITHLON I DDADWREIDDIO PLANHIGION GWYLLT.

Prif Fap



➊ Cwswll y Mynach



➋ Bysedd y Cŵn



➌ Marddanhadlen Felen



Dail Cwlwm Asgwrn



➍ Barf yr hen ŵr



📍 Moch Coed



📍 Cnau Gollen



📍 Blodau'r Helygen



📍 Cnau'r Ffawydd



📍 Derwen



COED

Ar ochr dwyreiniol y coed mae planhigion Llarwydd, Pinwydden yr Alban a phren caled yn gorchuddio ardal o 4 erw. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf tynnwyd y coed aeddfed yn y coetir er mwyn cael pren. Felly, mae'r coed a welwn heddiw yn gymharol ifanc, llawer ohonynt wedi'u hailblannu yn y 1920au. Ffawyddden yw'r rhan fwyaf o'r coed. Mae ganddynt risgl llwyd ariannog llyfn. Yn yr hydref gall llawr y coetir fod yn garped oren wrth i'r dail ddisgyn. Defnyddiwyd Ffawyddden yn aml i osod gwrychoedd, gwneud cadeiriau ac roedd y llyfrau cynharaf wedi'u gwneud o'r rhisgl.

Mae Gwernen yn gysylltiedig ag ardaloedd gwlyb a gellir eu canfod ar hyd glannau'r afon. Dyma'r unig goeden golddail (colli dail yn y gaeaf) sydd â ffrwythau siâp côn, sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â choed bytholwyrdd (sy'n cadw eu dail drwy gydol y flwyddyn). Defnyddiwyd y coed i wneud golosg a phowdwr gwn. Nid yw'r pren yn pydru mewn dŵr, yn wir mae'n dod yn galetach wrth gael ei wlychu ac roedd y rhan fwyaf o Venice, yr Eidal, wedi'i adeiladu ar stiliau a physt Gwernen.

Ymysg coed arall y gallwch eu gweld yn y coetir mae Onnen, Bedwen, Ysgawen, Masarnen Fach, Collen, Celyn, Derw, Helyg ac Ywen.

Prif Fap



COEDWIG FAWR PLYMOUTH

Hanes, Daeareg a Bioamrywiaeth

Mae'r canllaw hwn yn dangos rhai o nodweddion diddorol Coedwig Fawr Plymouth. Maent yn cynnwys chwarel, adar a bwystflod ac amryw o blanhigion a choed lliwgar. Cliciwch ar yr 'iconau' i ddarganfod mwy....

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd eraill i fwynhau cefn gwlad ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3719

E-bost: countryside@caerdydd.gov.uk

Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth, www.caerdyddawyragored.com

